

Cynllun strategol 2025-2030

Sicrhau

Rhoi sicrwydd am ganlyniadau i bobl.



Gwella

Annog, cynorthwyo, herio ac ysbrydoli gwasanaethau ac ein hunain, i wella'n barhaus.



Dylanwadu

Bod yn adnabyddus a dibynadwy, gan rannu ein dealltwriaeth a'n harbenigedd unigryw.



Byddwn yn:

Sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar ddiogelwch pobl, ansawdd eu bywyd a'u profiad o ofal.

Darparu adroddiadau a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n hawdd eu deall fel bod y bobl yn darllen ein gwaith a'n canfyddiadau.

Cael gweithlu amrywiol, cadarn a gwydn.

Meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, darparwyr, comisiynwyr a chydweithwyr.

Byddwn yn:

Dathlu llwyddiant ac annog gwelliant parhaus mewn gwasanaethau gofal ar lefelau sector ac mewn gwasanaethau unigol.

Hyrwyddo diwylliannau sefydliadol cadarnhaol a chynhwysol, a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gwella ein gwaith mewnol ac allanol ar y cyd, gan ddysgu oddi wrth ein gilydd i gynyddu effaith ein gwaith.

Adeiladu ar gyfleoedd a datblygiadau digidol i symleiddio a gwella sut rydym yn gweithio.

Byddwn yn:

Bod yn fwy gweledol i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn helpu.

Sicrhau bod ein gwaith wedi'i lywio gan y bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn gwasanaethau gofal.

Adrodd yn agored, heb ffafrio'r hyn rydym yn ei ddysgu am ofal yng Nghymru, heb fod ofn herio lle rydym yn gweld cyfleoedd i ymyrryd ar ran y rhai sy'n derbyn gofal.

Gweithio gyda'n gilydd ar draws AGC a gyda'n partneriaid, gan rannu'r hyn rydym yn ei wybod i wella canlyniadau i bobl.

